**<u>Pwyllgor Diwylliant Cyf: CC 07-02(p5)</u>**

Dyddiad: 17 Ebrill 2002

Amser: 9.00-12.00

Lleoliad: Cynulliad Cenedlaethol Cymru

**Deddf y Swyddfa Gyfathrebu 2002 a'r Mesur Cyfathrebu**

***Diben***

1. Gofynnir i'r Pwyllgor nodi bod Mesur y Swyddfa Gyfathrebu wedi derbyn cydsyniad brenhinol, ac y bydd y Mesur Cyfathrebu yn cael ei gyhoeddi maes o law ar gyfer ymgynghoriad cyhoeddus. Gofynnir i'r Pwyllgor hefyd ystyried ym mha ffordd y mae'n dymuno ymwneud ag ymgynghoriad cyhoeddus y Mesur Cyfathrebu.

***Pwerau***

2. Nid oes gan y Cynulliad Cenedlaethol unrhyw bwerau datganoledig mewn perthynas â Darlledu ond mae'r Adran Ddiwylliant, Cyfryngau a Chwaraeon wedi ymrwymo at ymgynghori â'r Cynulliad ynghylch materion darlledu sydd â pherthnasedd arbennig i Gymru yn ogystal â rhai penodiadau cyhoeddus i gyrff darlledu.

***Ystyriaeth flaenorol gan y Cynulliad***

3. Trafodwyd ymateb drafft Llywodraeth y Cynulliad i ymgynghoriad Llywodraeth y DU ar Bapur Gwyn Cyfathrebu gan y Pwyllgor Diwylliant ar 24 Ionawr 2001. Rhoddwyd ystyriaeth bellach i ymateb drafft Llywodraeth y Cynulliad yn y Cyfarfod Llawn ar 8 Chwefror 2001.

***Argymhellion***

4. Bod Aelodau'n:

[a] nodi hynt y mesurau Darlledu priodol;

[b] nodi a ydynt yn hapus gyda dull arfaethedig Llywodraeth y Cynulliad o ymgynghori â'r Pwyllgor mewn perthynas â'r Mesur Cyfathrebu.

***Deddf y Swyddfa Gyfathrebu 2002***

5. Derbyniodd y Mesur Cyfathrebu gydsyniad brenhinol ar 19 Mawrth 2002. Mae'r Ddeddf yn caniatáu sefydlu'r Swyddfa Gyfathrebu (OFCOM), sef y rheolydd newydd ar gyfer y cyfryngau a diwydiannau cyfathrebu. Mae'r Ddeddf yn caniatáu i'r gwaith paratoi ac ymarferol angenrheidiol gychwyn er mwyn sicrhau ei bod mewn sefyllfa i dderbyn y swyddogaethau rheoliadol pan ddaw y cynigion sydd wedi eu cynnwys yn y Mesur Cyfathrebu yn gyfraith gwlad.

6. Bydd bwrdd yr OFCOM cychwynnol yn cynnwys rhwng 3 a 6 o aelodau, gyda rhai ohonynt efallai'n aelodau gweithredol. Bydd cynrychiolaeth genedlaethol hirdymor ar OFCOM yn cael ei drafod yng nghyd-destun y prif Mesur Cyfathrebu, ynghyd â'r materion eraill yr ymatebodd Llywodraeth y Cynulliad arnynt fel rhan o ymgynghoriad y Papur Gwyn.

***Y Mesur Cyfathrebu***

7. Disgwylir i gyfnod ymgynghori o 3 mis ar y Mesur Cyfathrebu gychwyn ym mis Mai. Ochr yn ochr â'r ymgynghori hwn a chyn darlleniad cyntaf y Mesur, bydd cyd-bwyllgor rhag-ddeddfwriaethol y Senedd, gan gynnwys aelodau o Dy'r Cyffredin a Thy'r Arglwyddi, yn ystyried a darparu archwiliad rhag-ddeddfwriaethol o'r Mesur Cyfathrebu. Mae hwn yn ddatblygiad anarferol; y tro diwethaf i'r Senedd greu pwyllgor o'r fath oedd gyda'r Mesur Gwasanaethau Ariannol a Marchnadoedd (a weithredwyd yn 2000). Mae'n debygol iawn y bydd y pwyllgor rhag-ddeddfwriaethol hwn yn cynnwys 12 aelod, 6 o bob ty, a disgwylir i'r penderfyniad ynghylch yr union aelodaeth ac amseriad gael ei wneud yn yr ychydig wythnosau nesaf.

8. Bydd Llywodraeth y Cynulliad yn dymuno ymateb yn ffurfiol i'r ymgynghoriad ar y Mesur Cyfathrebu ac wrth wneud hynny bydd yn dymuno cymryd i ystyriaeth safbwyntiau'r Pwyllgor a'r darlledwyr Cymreig. Cynigir dull o weithredu tebyg i'r un a ddefnyddiwyd ar gyfer y Papur Gwyn ar Gyfathrebu. Byddai hyn yn golygu rhoi cyfle i'r Pwyllgor a'r Cynulliad mewn Cyfarfod Llawn, ystyried a thrafod ymateb ddrafft Llywodraeth y Cynulliad i'r Mesur. Bydd angen trefnu'r sesiynau hyn cyn toriad yr haf er ei bod yn anodd bod yn fanwl ynghylch dyddiadau ar hyn o bryd.

**Gofynnir i aelodau'r Pwyllgor ystyried a ydynt yn hapus gyda'r dull hwn o weithredu.**